**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2016**

**Tlws yr Ifanc**

**Stori fer: Tro trwstanh**

Derbyniais 7 ymgais ar gyfer y gystadleuaeth yma a phob un yn dangos dawn a dychymyg.

Dyma air byr am bob ymgais, ond nid yn ôl trefn teilyngdod.

**Wiwer goch**

Stori am ddau berson ifanc sef Clauda a Peter yn dawnsio gyda'i gilydd - deuawd ddawns – 'Romeo a Juliet'. Ceir manylion manwl o'r ddawns a phan ddaeth noson y cyngerdd ymfalchiodd Clauda fod llun ohonynt ar boster. Teimlaf fod diwedd y stori hon ychydig yn aneglur. Ceir hefyd ddiffyg treiglo ar brydiau ag eithro ar ôl 'fy' ac mae'r llawysgrifen yn anodd i'w ddeall.

**Pero**

Mae hon yn stori dda ac yn hawlio sylw y darllenydd o'r cychwyn. Hanes bachgen a thîm pêl-droed sydd wedi ennill tocynnau i fynd i weld gêm bêl-droed yng Nghaedydd. Maent yn dal bws, ac arno mae gwraig mewn oed. Yn ystod y siwrnai mae'r bws yn torri i lawr, newidir bws, ond cyn cyrraedd Caerdydd caiff y gyrrwr ffôn yn ei hysbysu eu bod wedi gadael yr hen wraig ar y bws yn cysgu. Bu'n rhaid troi yn ôl, ac fe gollwyd y gêm. Stori ddiddorol ac iaith lân.

**Blodeuwedd**

Stori yn llawn dychymyg sy'n mynd a ni i'r flwyddyn 4009 ar y blaned Toremlo. Stori am Eli, Dwynwen a Mari, robotiaid ag anghenfil enfawr sydd yn rheoli trigolion y blaned. Mae hon yn stori â llawer o feddwl a dychymyg byw wedi mynd iddi. Stori wedi ei gosod yn dda a defnyddiodd yr awdures iaith raenus. Y ddeialog yn arbennig. Mwynheais ei darllen.

**Ceridwen**

Dechrau da yn hawlio fy sylw – "Hanner awr fydda i ar y mwya' ond rhag ofn dyma i ti'r allwedd." Hanes Cerys ar ei diwrnod cyntaf o brofiad gwaith mewn amgueddfa, gyda Glenys Price (hen wreigan) yno yn ei chroesawu. Gadawodd Glenys Price yr amgueddfa gan adael Cerys i gloi. Ar amser cau clywodd Cerys sŵn y lifft. Roedd ofn arni, ond pwy ymddangosodd ond Glenys Price (gwraig ganol oed). Roedd hon wedi dod â bisgedi gyda hi at y diwrnod wedyn. Diwedda y stori gyda sŵn y lifft yn symud eto. Stori arswyd sydd wedi ei hysgrifennu mewn iaith raenus. Cefais fwynhad o'i darllen.

**Siwper Ted**

Stori swmpus am fachgen o'r enw Harri â phopeth yn mynd o chwith iddo yn yr ysgol – pêl-droed, Mathemateg. Ei dad yn bêldroediwr gwych ac yn gobeithio y buasai Harri yn debyg iddo, ond roedd ei fab yn siomiant iddo. Daeth Harri o'r ysgol, yn syth i'w ystafell wely i chwarae y gêm 'Tro Trwstan' ar yr Xbocs. Ceir disgrifiad manwl ohono yn chwarae y gêm, ac yn cael ei ddenu i mewn i'r gêm gan lwyddo i osgoi y 'Tro Trwstan' . Yna mae'n deffro. Defnyddiodd y testun yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwn. Diweddglo ychydig yn siomedig.

**Mefus**

Stori am ferch o’r enw Lowri a’i mam yn mynd i ymgartrefu mewn hen dŷ nad oedd neb eisiau ei brynu ond y fam. Stori arswyd sydd yn gwneud i wallt eich pen godi. Dychymyg byw a disgrifiadau da, ond nid yw’r naratif yn rhedeg yn esmwyth oherwydd amser y ferf. Stori wedi ei gosod yn daclus.

**Siôn Blewyn Coch**

Stori a hawliodd fy sylw o’r cychwyn cyntaf ac a apeliodd i mi. “Yn gyntaf,” meddai’r arweinydd yn bwysig, “ac yn cynrychioli’r Sir ac yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y mae Siôn Williams.”

Hanes bachgen enillodd ar y Fonolog yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion a’i hawl i gystadlu yn y genedlaethol yn Sir Fflint. Cawn hanes ei daith helbulus – y car yn torri i lawr, taith ar y trên a’r helbul i gario’r gadair oedd ei hangen ar gyfer y fonolog. Cyrhaeddodd y rhagbrawf bum munud cyn diwedd y gystadleuaeth, â stiward y rhagbrawf yn taeru gydag ef ei fod yn rhy hwyr. Siôn yn mynnu ei fod o fewn yr amser OND y stiward yn dweud –
“Rydych chi’n yn rhy hwyr – DDOE oedd y rhagbrawf.”

Tro Trwstan yn wir!

Stori yn llawn dychymyg mewn iaith lân a graenus. Llwyddodd i ddod â’r tro yn y gynffon. Cefais fwynhad o’i darllen.

Diolch i bob un am gystadlu ac am roi pleser imi.

Enillydd Tlws Yr Ifanc yn Eisteddfod Penrhyn- coch 2016 yw –

**SIÔN BLEWYN COCH**

**Esyllt Tudur Adair**